



**Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc
(HMP a YOI)**

**Y PARC,
Pen-y-bont ar Ogwr**

**Adroddiad Blynyddol
Mawrth 2014 - Chwefror 2015**

DYDDIAD CYHOEDDI: 14/09/2015

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

CRYNODEB O'R CYNWYS

| | |
|----------|--|
| Adran 1 | Crynodeb Gweithredol |
| Adran 2 | Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol |
| Adran 3 | Disgrifiad o'r Carchar |
| Adran 4 | Meysydd y mae gan y Bwrdd ddyletswydd i adrodd arnynt: |
| Adran 4A | Uned Pobl Ifanc |
| Adran 4B | Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| Adran 4C | Addysg, Dysgu a Sgiliau |
| Adran 4D | Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl |
| Adran 4E | Gweithgarwch pwrpasol |
| Adran 4F | Adsefydlu |
| Adran 4G | Dalffa Fwy Diogel |
| Adran 4H | Arwahanu, Gofal ac Arwahanu, Goruchwyliaeth Agos |
| Adran 4I | Gwasanaethau Preswyl |
| Adran 5 | Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol |

1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn ein hadroddiad ar gyfer 2013/14, tynnwyd sylw at yr angen am leoedd ychwanegol i garcharorion ar gyrsiau achrededig a gomisiynir gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS). Mae'r bwrdd yn siomedig i adrodd nad oes unrhyw dystiolaeth bendant o unrhyw welliant o ran argaeledd lleoedd. Mae'r Bwrdd unwaith eto yn annog NOMS i ddyrannu mwy o leoedd i garcharorion ar y cyrsiau achrededig mae'n eu comisiynu

Yn ystod 2014/15, cwblhawyd Cam 2 o ehangu Carchar y Parc ar amser. Mae bloc tŷ newydd, canolfan ymwelwyr, porthdy, clo allweddol, a maes parcio i gyd yn weithredol erbyn hyn. Rydym yn cymeradwyo'r carcharorion a'r staff am eu hamynedd yn ystod y cynnwrf a achoswyd gan yr ehangu, ac am eu cydweithrediad wrth drosglwyddo i leoliadau newydd.

Mae'r Bwrdd wedi recriwtio aelodau newydd ond mae wedi colli beth allai fod wedi bod yn aelodau da oherwydd yr amser a gymerwyd o ddechrau recriwtio i benodiad ffurfiol. Byddem yn dymuno gweld y gweithdrefnau recriwtio yn cael eu symleiddio.

Roedd y Bwrdd yn falch iawn o glywed bod y Parc wedi derbyn gwobrau gan Ymddiriedolaeth Butler, am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r gwobrau hyn yn dathlu arfer rhagorol gan y rhai sy'n gweithio gyda throseddwyr yn yr uned byw gyda chymorth.

Cyflwynodd tîm o swyddogion o'r Uned Teulu ym Mharc sesiwn gweithdy yng Nghynhadledd Flynyddol yr IMB a gynhaliwyd yn Chwefror 2015. Roedd y gweithdy hwn yn seiliedig ar Brosiect Waliau Anweladwy a oedd yn rhaglen arloesol a ddatblygwyd yn y Parc. Roedd yr adborth a gawsom gan y Byrddau eraill yn gadarnhaol iawn.

Parhaodd y Parc i fod yn llwyddiannus yn y Gwobrau Koestler blynyddol ac rydym ni fel Bwrdd yn llongyfarch yr adran Gelf, y carcharorion a'r staff, am eu llwyddiant. Mae'r gwobrau hyn yn annog talent ac yn rhoi hwb aruthrol mewn hunan-barch i'r derbynwyr.

Mae'r Bwrdd yn bryderus iawn bod nifer o Bobl Ifanc sy'n ymddangos yn y llys yn y bore yn gorfod aros am gyfnod afresymol o amser i gael eu cludo yn ôl i'r Parc, ac yn aml ddim yn cael eu dychwelyd at eu hunedau tan yn hwyr yn y nos. Rydym yn teimlo bod hyn yn annerbyniol ac rydym yn gofyn i'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid gymryd camau i geisio datrys y materion trafndiaeth hyn.

Argraff gyffredinol y Bwrdd yw bod Carchar y Parc yn cael ei rheoli'n dda, bod diogelwch y carcharorion yn hollbwysig, a bod y gweithgarwch pwrpasol a ddarperir yn gyffredinol yn dda iawn. Rydym yn cydnabod bod rhai o'r materion yr ydym yn codi yn yr adroddiad y tu hwnt i reolaeth Ngharchar y Parc.

2 RÔL STATUDOL

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Lloches a Mewnfudo 1999 yn gofyn i bob carchar ac IRC i gael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol, a benodir gan yr Ysgrifennydd Cartref gan aelodau o'r gymuned ble mae'r carchar neu ganolfan wedi'i lleoli.

Mae'r Bwrdd yn benodol gyfrifol am:

- (1) fodloni ei hun ynghylch y driniaeth drugarog a chyfiawn o'r rhai a gedwir yn y ddalfa o fewn ei charchar ac ystod a digonolwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- (2) rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae ef wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y mae'n barnu sy'n briodol, am unrhyw bryderon sydd ganddo.
- (3) adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai sydd yn y ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol mae gan ei aelodau hawl i gael mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd at gofnodion y carchar.

Mae Bwrdd y Parc yn gwbl ymroddedig i'w rôl bwysig. Mae'n ymdrechu i fod yn broffesiynol yn ei ymagwedd ac yn gynhwysol yn ei hethos. Er gwaethaf colli nifer o aelodau profiadol, mae'r Bwrdd wedi parhau i weithredu o ganlyniad i'r ysbryd tîm cryf sydd wedi datblygu. Mae'r Bwrdd yn cynnal ei ymrwymiad hyfforddi ac yn rheolaidd yn adolygu ei arferion a'i effeithiolrwydd wrth gyflawni ei waith.

Mae Bwrdd y Parc yn ymrwymedig i ymagwedd gynhwysol at amrywiaeth. Er bod ein haelodau yn cwmpasu ac yn hyrwyddo mwy o ryngweithio a dealltwriaeth rhwng pobl o wahanol hil, crefydd, rhyw, cenedligrwydd, rhywioldeb, anabledd ac oedran, maent yn derbyn bod yn rhaid i ymagwedd gwbl gynhwysol at amrywiaeth hefyd gydnabod ac ymdrin â gwahaniaethau eraill yr ydym yn dod ar eu traws mewn bywyd megis llythrennedd a rhifedd, iechyd meddwl ac ymagwedd at gamddefnyddio sylweddau.

Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi'r ymagwedd hon at amrywiaeth o fewn ei arferion recriwtio a Datblygu'r Bwrdd, ac mae'n ceisio cynyddu repertoire o sgiliau a hybu ymwybyddiaeth ymysg ei aelodau o anghenion a safbwyntiau amrywiol poblogaeth Carchar y Parc.

Bydd pob aelod o'r Bwrdd yn y Parc yn ymgymryd â'u dyletswyddau mewn modd sy'n hygyrch i bawb o fewn y sefydliad. Bydd y Bwrdd yn monitro i weld a yw'r profiadau a'r rhyngweithio rhwng y staff, carcharorion ac ymwelwyr yn deg a heb ragfarn. Dylai ymgysylltu amrywiaeth alluogi i bob unigolyn fynegi eu gwerthoedd, safbwyntiau a chredoau heb amharchu neu'n gwahaniaethu yn erbyn pobl eraill, a sicrhau bod cyfleoedd yn agored i bawb. Lle nad yw hyn yn wir, bydd y Bwrdd yn tynnu sylw'r awdurdodau ac unigolion priodol.

3 DISGRIFIAD O'R CARCHAR/Y SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC

Mae Carchar a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Ei Mawrhydi, y Parc, yn sefydliad lleol categori B a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc ag Uned Pobl Ifanc bach a chytunwyd ar y canlynol: -

- i) Gwaelodlin Llety Ardystiedig Normal o 1557 o oedolion ac oedolion ifanc o'r 25^{ain} o Ionawr 2015 (1170 hyd at y dyddiad hwnnw).
- ii) capasiti gweithredol presennol o 1723 (1474 hyd at y 25^{ain} o Ionawr 2015) gan gynnwys 64 (64) o bobl ifanc.

Agorodd Carchar a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc ar yr 17^{eg} o Dachwedd 1997, a dyma'r unig garchar preifat yng Nghymru. Mae'n cael ei reoli gan y Gwasanaethau Cyfiawnder G4S ar ran y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r. Mae llawer o staff y carchar yn cael eu recriwtio o'r ardal leol.

Yn gyffredin â phob sefydliad contractio, mae gan Garchar a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc Reolwr. Mae'r Rheolwr yn rheoli'r contract 25 mlynedd rhwng y Gwasanaeth Carchardai a G4S, ac yn uniongyrchol gyfrifol i Gyfarwyddwr Rheoli Troseddwy'r (Cymru).

Cwblhawyd estyniad mawr i'r carchar, i ddarparu ar gyfer carcharorion agored i niwed, yn agos at ddiwedd y flwyddyn adrodd. Bydd hyn yn cynyddu'r boblogaeth i gael eu darparu ar eu cyfer gan 387. Mae gan y bloc "Coed" newydd adenydd tri llety ac ystafelloedd dosbarth, gweithdai a chanolfan feddygol. Mae'r dderbynfa flaenorol wedi cael ei drawsnewid i mewn i ardal hamdden, capel, ystafelloedd dosbarth a neuadd ymweliadau. Roedd derbynfa newydd i ymwelwyr a gât mynedfa newydd wedi'u cynnwys yn y datblygiad. Mae'r ganolfan ymwelwyr yn groesawgar ac mae toiledau a chyfleusterau ar gyfer byrbrydau a diodydd. Mae ardal chwarae i blant ar gael ger y ganolfan.

Asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau:

Gwasanaethau Llyfrgell - Greenwich Leisure Limited

Mudiadau Gwirfoddol:

Ymddiriedolaeth y Tywysog
Cynllun Gwobr Dug Caeredin
Ymddiriedolaeth Gwobrau Koestler - Celfyddydau gan Droseddwy'r
Undeb y Mamau - cymorth gyda chyfleusterau crèche
Samariaid - yn cynnwys hyfforddiant i Wrandawyr
Gŵyl Lenyddol y Gelli
Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd
Clwb Rygbi Rhanbarthol y Gweilch
Cymdeithas Genedlaethol yr Ymwelwyr Carchar (Swyddogol)

Ymysg yr ymwelwyr nodedig i'r sefydliad yn ystod y flwyddyn adrodd oedd:

Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol

Cherie Booth CBE, QC

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd McNally - Cadeirydd, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr

Javed Khan - Prif Weithredwr Barnardos

Lesley Griffiths AC - Y Gweinidog dros Gymunedau a Threchu Tlodi

Yr Arglwydd Harris o Haringey

John Griffiths AC - Y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon

Jonathan Berry - CADW

Marcus Brigstocke - Digrifwr a dychanwr

Peter Tatchell - Cyfarwyddwr Sefydliad Peter Tatchell

Martin Dawes

Caspar Walsh - Awdur

Andrew RT Davies AC

Sarah Payne (NOMS)

4A YR UNED POBL IFANC (Dynion 15-17 mlwydd oed)

Mae gan Garchar a YOI y Parc Uned Pobl Ifanc gyda lle i gartrefu 64 o ddynion ifanc rhwng 15-17 oed. Yr Uned Pobl Ifanc yng Ngharchar a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc yw'r unig sefydliad troseddwy'r ifanc (YOI) ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Agorwyd yr Uned mewn ymateb i ddymuniad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i gartrefu troseddwy'r ifanc o Gymru yn agos at eu cartrefi. Mae cynnal cysylltiadau teuluol a chymunedol yn cael eu hyrwyddo a'u hannog ar bob adeg. Mae hyn wedi bod ethos o'r Uned, ac mae'r staff yn ymroddedig i hyrwyddo hyn. Mae'r Bwrdd yn gallu adrodd bod y gwaith a wneir yn effeithiol.

Mae'r Uned Pobl Ifanc yn cynnwys dwy adain. Mae'r Bwrdd yn ymweld â'r Unedau yn rheolaidd, ac yn monitro'r carcharorion hynny sydd wedi'u harwahanu yn ôl yr angen. Mae'r aelod Bwrdd sy'n gyfrifol am ardaloedd arbennig yn ceisio ymweld tair gwaith yr wythnos. Mae'r trefniant hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg a nodwyd o ymwybyddiaeth o'r IMB ymhlith y bobl ifanc, ac yn ceisio sicrhau bod eu gweithdrefnau diogelwch a monitro yn weithredol. Mae'r bobl ifanc yn mynychu addysg a chymdeithasau yn rheolaidd. Mae'r oriau y tu allan i'r gell yn wahanol yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau oherwydd gwahanol gyfundrefnau. Cyfartaledd yr oriau y tu allan i'r gell ar benwythnosau o fis Ebrill 2014 i fis Chwefror 2015 oedd 9.26 awr y person ifanc. Cyfartaledd yr oriau y tu allan i'r gell ar gyfer yn ystod yr wythnos o fis Ebrill 2014 i fis Chwefror 2015 oedd 10.69. Mae hyn yn unol â'u DPA.

Gall yr Uned Pobl Ifanc fod yn broblematic ac yn gyfnewidiol ar adegau oherwydd natur y bobl ifanc sy'n byw yno. Cyfanswm nifer y digwyddiadau hysbysadwy o fis Ebrill 2014 i fis Chwefror 2015 oedd 226. Mae hwn yn cyfateb i gyfartaledd o 20.54 y mis. Ymosodiadau, gan gynnwys ymladd a hunan-niweidio oedd y prif faterion.

Gall y bobl ifanc ennill cymwysterau achrededig mewn addysg a chael y cyfle i fynd i'r afael ag unrhyw faterion llythrennedd a rhifedd trwy amrywiaeth eang o addysg amgen a gynigir yn y Parc.

Mae'r Bwrdd yn adrodd bod aelodau o staff yr uned yn gymwys ac yn meddu ar y profiad i gefnogi'r bobl ifanc gymaint ag y bo modd. Mae'r staff yn gweithio'n galed ar adeiladu perthynas gyda'r bobl ifanc, gan eu cefnogi wrth fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau.

Drwy ein gwaith monitro, rydym yn dal i fod yn bryderus am bobl ifanc ar arwahanu a'r diffyg cyfleuster amgen, yn enwedig lle mae person ifanc yn rhannu cell ac mae ei gydletywr yn colli breintiau hefyd. Rydym yn cydnabod bod staff yn ceisio ymladd yn erbyn hyn a sicrhau bod y swm lleiaf o aflonyddwch yn digwydd, ond mae'n parhau i fod yn fater sy'n peri pryder.

O bryd i'w gilydd mae pobl ifanc yn cael eu rhoi yn yr Uned Cymorth Dwys, sydd wedi ei leoli yn yr Uned Dalfa Fwy Diogel, ac mae swyddogion yn cael eu pennu i'w goruchwylio. **Mae'r Bwrdd yn argymhell bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyfleuster sy'n seiliedig ar unedau i ddarparu ar gyfer y rhai sydd angen yr arwahaniad hwn.**

4B CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

Mae'r adran sy'n delio â chydaddoldeb a chynhwysiant wedi cael ei ailenwi y Tîm Cynhwysiant Cymunedol ac mae ganddo ddau Ymgynghorydd Cynhwysiant Cymunedol dynodedig.

Mae gweithdrefn monitro newydd ar gyfer ymdrin â cheisiadau, a wnaed gan ddefnyddio'r ffurflen adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethu (DIRF), wedi cael ei gyflwyno ac unrhyw gais a wneir yn cael ei hateb o fewn pum diwrnod gwaith. Yn ogystal, mae'r system ymgeisio electronig newydd (CMS) yn cael ei ddefnyddio gan y Tîm Cynhwysiant Cymunedol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r carcharorion. Fel rhan o'r system DIRF newydd, cynhelir rhaglenni ymyrraeth amrywiaeth bob mis ar gyfer unrhyw garcharorion sydd wedi arddangos ymddygiad gwahaniaethol, ac mae adroddiadau yn cael eu hanfon at eu goruchwylwyr troseddwr. Mae'r system newydd hon yn dangos ymrwymiad y Parc i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb.

Cynhelir hyfforddiant yn fisol fel bod gan yr holl staff fynediad at y sesiwn hyfforddi ar weithredu mewn modd cynhwysol, mae pob aelod newydd o staff hefyd yn cael eu hyfforddi ar hyn yn y cyfnod sefydlu.

Mae pob carcharor newydd yn cael eu gweld gan y Tîm Cynhwysiant Cymunedol fel rhan o'r broses sefydlu. Mae Cynrychiolwyr Cynhwysiant Cymunedol yn cael eu cyflogi ar yr holl unedau ac yn yr unedau sefydlu.

Cynhelir grwpiau ffocws misol gyda chynrychiolwyr o grwpiau lleiafrifol gan gynnwys y Parc Unedig (grŵp LHDT), Teithwyr Unedig (Grŵp teithwyr, Roma, Sipsiwn), a grwpiau cymunedol chynhwysiant. Mae pob Cynrychiolydd Cynhwysiant Cymunedol ar yr adain yn cael hyfforddiant parhaus mewn perthynas â throseddau casineb, HIV ac AIDS, ac ymwybyddiaeth o anabledd.

Ymhlith y gweithgareddau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd Mis Hanes Pobl Dduon, Mis Hanes Teithwyr Sipsiwn Roma a Mis Hanes LHBT. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys dangosiadau DVD, gweithdai, digwyddiadau chwaraeon a grwpiau darllen.

4C ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

Yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru ar Sgiliau Cymru, sy'n ceisio sefydlu Lefel 2 Sgiliau Hanfodol fel y dyhead ar gyfer y rhan fwyaf o oedolion, mae'r Parc wedi cynyddu ei gyflwyniad o Sgiliau Hanfodol yn y flwyddyn ddiwethaf a hefyd wedi cynnwys dosbarthiadau Sgiliau Hanfodol fel rhan o'i hardaloedd hyfforddiant galwedigaethol. Ar hyn o bryd mae pedwar dosbarth llythrennedd a phedwar dosbarth rhifedd yn rhedeg yn yr Adran Addysg gyda dosbarth Sgiliau Hanfodol ychwanegol yn yr ardal Diwydiannau.

Mae'r ddarpariaeth TGCh hefyd wedi cynyddu gyda mwy o bwyslais ar gyflawni'r Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd, sef y cymhwyster cydnabyddedig a dderbynnir gan gyflogwyr. Mae athro ychwanegol wedi cael ei gyflogi i ddysgu Cymraeg a'r dimensiwn Cymreig, gan arwain at gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer y Coed a'r unedau Pobl Ifanc.

Penodwyd darllenydd preswyl rhan amser ym mis Medi 2014. Hi sy'n gyfrifol am ysgogi brwdfrydedd am ddarllen ac mae'n gweithio ym mhob rhan o'r carchar. Mae hi hefyd wedi datblygu clwb llyfrau y Parc i garcharorion.

Mae darpariaeth y llyfrgell bellach yn cael ei gyflwyno gan Greenwich Leisure Limited.


Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg Bellach a'r Brifysgol Agored hefyd wedi cynyddu gyda charcharorion yn gallu dewis o blith 350 o gyrsiau. Cymeradwywyd y Parc gan yr Ymddiriedolaeth Addysg Carchardai fel "un o'r carchardai gorau ar gyfer cefnogi dysgu o bell". Mae Ymddiriedolaeth Shannon wedi canmol y Parc am ei ymrwymiad i gyflwyno'r cynllun "Toe by Toe" o fentora mewn llythrennedd. Bu datblygiadau diweddar i'r cynllun hwn sy'n cael ei adnabod erbyn hyn fel "Turning Pages"

Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo cyflogi mentoriaid llythrennedd o fewn y carchar, lle mae carcharorion yn cynorthwyo eraill gyda sgiliau darllen ac ysgrifennu sylfaenol. Mae hyn yn profi'n llwyddiannus iawn.

Mae'r cydlynnydd gwladolion tramor wedi ail hyfforddi fel athro a gwelwyd gwelliant amlwg yn ddarpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, gyda charcharorion yn symud ymlaen i gyrsiau llythrennedd a rhifedd.

Mae cyfraddau cadw ar gyfer staff dysgu yn parhau i fod yn dda, ac o ganlyniad i'r cynnydd yn y boblogaeth, ac agor bloc y Coed yn ddiweddar, mae aelodau ychwanegol o staff wedi cael eu cyflogi i gyflwyno TGAU / SHC, TGCh, Celfyddydau Creadigol a Dylunio, Cymraeg, Addysg Gorfforol ac Addysg Bellach.

Mae'r siart isod yn dangos sut mae'r Parc wedi bodloni neu ragori ar dargedau meincnodi Carchardai Cymru ar draws meysydd y cwricwlwm.



Un maes sy'n cael ei fonitro'n agos gan y IMB yw darparu addysg ar gyfer Pobl Ifanc tra ar arwahaniad ac yn aros i gael eu dyfarnu. Pan fydd angen mae hwn yn cael ei ddarparu gan Gydlynnydd Cynhwysiant sy'n cefnogi'r Person Ifanc ar yr uned gyda pharhad o'r gwaith sydd eisoes wedi dechrau mewn Addysg. Mae llyfrynau hefyd wedi cael eu dylunio i helpu'r/0} Bobl Ifanc ar arwahaniad i ystyried eu hymddygiad eu hunain yn agosach, gan gynnwys Asesu eich Dysgu a Sgiliau Meddwl eich hun, Ymwybyddiaeth Gwrth-fwlio, Rheoli Dicter a Magu Hyder.

Cafwyd buddsoddiad sylweddol mewn adnoddau newydd yn dilyn datblygiad adeilad newydd gyda dwy ystafell Apple Mac newydd ar gyfer y cyrsiau dylunio graffeg a chyfryngau creadigol newydd. Mae gweithdy crochenwaith ac odyd newydd wedi cael eu gosod yn uned Coed.

Mae rhodd hael o £3,500 o'r Prosiect Addysgol Cerddoriaeth wedi galluogi i'r Parc fuddsoddi yn ei orsaf radio ac mae hyn yn rhoi cyfle i gyflwyno sgiliau ychwanegol sy'n cysylltu â'r ystafell ddsbarth cyfryngau creadigol.

Llwyddiannau nodedig:

Ym mis Mawrth 2014, cafodd y Parc ei gydnabod am y gwaith i gefnogi carcharorion gydag anghenion Anabledau/Anhawster Dysgu. Cynhaliwyd seremoni Gwobr Ymddiriedolaeth Butler ar Fawrth 20^{fed} 2014 ym Mhalas Buckingham a chyflwynwyd y wobr gan Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol.

Perfformiodd y Parc yn dda yng ngwobrau Koestler unwaith eto, gan dderbyn mwy o wobrau nag unrhyw garchar arall gyda 90 gwobr i gyd a gwobr arian o £1,180. Arddangoswyd mwy na 60 darn o waith yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Cynhaliwyd y Gelli yn y Parc yn adeilad yr Academi yn yr uned Pobl Ifanc gyda siaradwyr gwadd yn cynnwys Marcus Brigstocke, Peter Tatchell, Martin Dawes a Caspar Walsh. Roedd y

carcharorion a oedd yn bresennol wedi mwynhau'r gweithdai hyn ac wedi ennill mewnwelediad gwerthfawr o'r ymwelwyr.

Ymwelodd y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon, John Griffiths, â'r Parc gyda Jonathan Berry o CADW i weld y murlun graffiti a gynhyrchwyd gan grŵp o bobl ifanc yn eu hiard ymarfer corff. Cafodd y prosiect ei ariannu a'i hwyluso gan CADW ac mae'n dangos adegau gwahanol yn hanes Cymru. Siaradodd y Gweinidog bobl ifanc oedd wedi cymryd rhan yn y prosiect a chynhaliwyd digwyddiad dathlu yn y Senedd.

Prosiect arall sydd wedi digwydd ar y cyd â CADW ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru yw Prosiect Mortaria. Mae carcharorion sy'n oedolion o'r dosbarth hanes addysg wedi bod yn astudio nifer o gyfnodau hanesyddol ac wedi cael cyfle i drin arteffactau hynafol, coginio bwyd traddodiadol canoloesol a pheintio arddull Rufeinig frescos. Ar hyn o bryd mae carcharorion yn gweithio trwy gyfres o unedau i ennill cymhwyster cydnabyddedig.

Yn 2014 rhoddodd yr Ymddiriedolaeth Addysg Carchardai £17,480 i alluogi 54 o ddysgwyr i gwblhau cyrsiau.

4D GOFAL IECHYD A IECHYD MEDDWL

Mae'r adran Gofal Iechyd yn chwarae rôl hanfodol wrth ofalu am garcharorion, delio â'r archwiliad cychwynnol wrth gael eu derbyn i'r carchar, problemau iechyd, salwch a digwyddiadau brys, a hefyd y gofal lliniarol i gleifion ag afiechyd terfynol.

Yn ystod yr arolygiad a gynhaliwyd y llynedd dyfarnwyd bod yr adran gofal iechyd yn dda. Fodd bynnag, datgelodd yr arolwg carcharorion cychwynnol bod y carcharorion yn ystyried ei fod yn wael. Yn adroddiad yr arolygwyr roedd argymhelliad y dylai'r adran fod yn rhagweithiol o ran gwella canfyddiad carcharorion o'i waith. Mewn ymateb i hyn penodwyd Gweinyddwr Hybu Iechyd ac mae'n yn ymgysylltu â chleifion mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys mynychu fforymau'r carcharorion. Cynlluniwyd mentrau gan gynnwys sefydlu fforymau gofal iechyd, ac i garcharorion gael eu penodi fel Hyrwyddwyr Gofal Iechyd a gweithio gyda'r Gweinyddwr wrth annog carcharorion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain. Yn ogystal, mae'r adran wedi cyflwyno "Prawf Ffrindiau a Theulu" y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, sef holiadur byr i gleifion fynegi eu barn ar eu profiad Gofal Iechyd.

Mae'r adran Gofal Iechyd wedi cofleidio CMS ac mae carcharorion yn gallu gwneud ceisiadau ar gyfer amrywiaeth o wahanol apwyntiadau gan ddefnyddio'r consolau ar yr adain. Ymdrinnir ac ymatebir i geisiadau bob dydd. Yn anffodus, nid oes modd dosbarthu manylion yr apwyntiad yn electronig ar hyn o bryd oherwydd problemau gyda'r system. Yn y cyfamser, mae slipiau apwyntiad yn cael eu cyhoeddi â llaw rhyw 48 awr cyn yr apwyntiad.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol y bu nifer sylweddol o apwyntiadau lle nad oedd y carcharor wedi mynychu. Mae'r mater hwn yn cael ei ymchwilio gan yr adran gofal iechyd i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r adnoddau prin sydd ar gael. Rydym yn ymwybodol o'r achos achlysurol lle

mae carcharor wedi trosglwyddo adain a bod y slip apwyntiad a'r daflen gofnodi yn dangos ei leoliad blaenorol.

Gydag agoriad bloc Coed, sefydlwyd gorsaf Gofal Iechyd ar wahân a phenodwyd saith aelod o staff nyrsio ychwanegol a chynorthwydd gweinyddol i ddelio â'r cynnydd yn y boblogaeth carcharorion. Mae sesiynau is-gontractwr hefyd wedi cael eu cynyddu o ganlyniad i'r cynnydd yn y boblogaeth.

Mae'r adran wedi cyflwyno sgrinio ymlediad aortaidd yn yr abdomen fel un o'i mentrau iechyd rhagweithiol ac rydym yn cymeradwyo hyn.

Mae darpariaeth ar gyfer cymorth i'r carcharorion hynny â phroblemau iechyd meddwl. Mae Uned Gofal Arbennig ar gael ar gyfer y rhai sydd angen mwy o gefnogaeth. Mae gwrandawyr, carcharorion sydd wedi cael eu hyfforddi gan y Samariaid, ar gael ym mhob rhan o'r carchar.

Rydym yn cydnabod yr anhawster sydd gan yr adran Gofal Iechyd wrth ddarparu gwasanaeth ar gyfer y nifer uwch o garcharorion o ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Mae ein profiad wedi dangos bod nifer o achosion o anffodlonrwydd â'r driniaeth a dderbyniwyd wedi deillio o'r adran yn darparu'r carcharor gyda hyn sydd ei angen arno, yn hytrach na'r hyn y byddai'n hoffi cael. **Mae'r adran wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion a wnaed yn dilyn yr arolygiad ac o'r hyn yr ydym wedi ei weld mae'n adolygu ei weithrediadau yn barhaus i geisio gwella ymhellach ei ddarpariaeth gofal.**

4E GWEITHGAREDD PWRPASOL

Ar hyn o bryd mae 19 o weithgareddau o fewn "The Hub", sy'n gartref i'r Adran Hyfforddiant Galwedigaethol Diwydiannau, ac mae'r rhain yn darparu cyflogaeth i 296 llawn amser a 276 rhan amser. Mae'r cyfleoedd gwaith yn darparu sgiliau sy'n arwain at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol.

Mae'r holl staff hyfforddi yn meddu ar brofiad gwaith blaenorol a chymwysterau perthnasol ac maent yn ETOI/PTLLS gymwys neu yn y broses o ennill y rhain. Y Parc yw'r unig garchar yn y wlad wedi'i hachredu i gyflwyno'r cymwysterau hyn.

Agorwyd canolfan alwadau newydd mewn partneriaeth â Data'r Cyfrifiad ym mis Mehefin 2014. Penodwyd hyfforddwr ac, er gwaethaf rhai problemau cychwynnol, mae'r gwaith hwn wedi dod yn boblogaidd gyda carcharorion. Mae cyfleoedd ar gyfer dod o hyd i waith ar ôl eu rhyddhau yn cael eu darparu gan y cynllun hwn. Mae'r broses o benodi hyfforddwr newydd ar y gweill.

Mae gan Macmillan Distribution berthynas ragorol gyda'r carchar ac mae wedi helpu dau garcharor i gael gwaith ar ôl eu rhyddhau. Mae'r gweithdy sy'n pecynnu llyfrau wedi bod drwy archwiliad SMTA ochr yn ochr â Macmillan. Roedd y Bwrdd yn falch o glywed ei fod wedi pasio'r arolygiad a bod yr uwch-archwilydd wedi nodi y byddai'n defnyddio'r Parc fel meincnod i famu carchardai eraill. Ar y pryd, y Parc oedd yr unig garchar yn y wlad a oedd wedi pasio'r archwiliad hwn.

Mae'r Bwrdd yn siomedig i nodi bod dim llawer o gynnydd wedi bod wrth benodi hyfforddwr gosod brics newydd. Roedd y cwrs gosod brics yn boblogaidd iawn gyda carcharorion.

Mae cwblhau'r gwaith ar floc Coed wedi gweld llawer o'r gweithdai yn darparu profiad gwaith ar y safle. Mae tîm BICS wedi bod yn brysur yn glanhau'r blociau tŷ newydd cyn i'r carcharorion gael eu trosglwyddo i mewn. Mae hyfforddeion y gweithdy peintio ac addurno wedi addurno blociau gwag C a D cyn adleoli carcharorion. Mae'r gweithdy gwaith coed wedi gwneud meinciau gwaith, cypyrddau a silffoedd ar gyfer y gweithdai newydd ym mloc Coed.

Mae'r Adran Diwydiannau a Hyfforddiant Galwedigaethol yn gweithio gyda'r Adran Addysg i ddarparu sgiliau pwrpasol hanfodol (yn yr ystafell ddosbarth) mewn Diwydiannau i wella lefelau llythrennedd a rhifedd y carcharorion. Mae hyn wedi profi i fod yn llwyddiannus iawn ac yn boblogaidd gyda'r carcharorion.

Mae amgylchedd y carchar yn cael ei wella gan yr Adran Arddwriaethol sy'n cynnal y tiroedd, y blodau deniadol a'r ardd ganolog i safon uchel.

Mae'r ganolfan anifail yn cael ei redeg yn dda ac yn boblogaidd gyda carcharorion. Darperir hyfforddiant yng ngofal anifeiliaid. Mae sgiliau cadw gwenyn hefyd yn cael eu darparu.

4F ADSEFYDLU

Mae Carchar y Parc wedi datblygu cysylltiadau da gyda diwydiannau a grwpiau cymunedol i helpu gydag ailsefydlu carcharorion wrth eu rhyddhau. Mae hefyd cyrsiau hyfforddi amrywiol a ddarperir i helpu carcharorion gwblhau eu cynlluniau dedfrydu hefyd, ond mewn rhai achosion mae cyfyngiadau'r gyllideb yn cyfyngu pa mor aml y gellir darparu cyrsiau.

Mae Bloc C bellach yn cael ei ddynodi fel yr Uned Ailsefydlu a bydd yn gweithredu rhaglen a gynlluniwyd ar gyfer y rheiny sy'n cwblhau eu dedfrydau, yn enwedig troseddwr cyntaf.

Mae'r arferion a fabwysiadwyd yn y Parc i sicrhau a hyrwyddo cysylltiadau rhwng teulu a carcharorion wedi cael eu defnyddio fel model ar gyfer carchardai eraill, ac mae'r Bwrdd yn llongyfarch y Carchar ar ei mentrau yn hyn o beth.

Mae'r Bwrdd wedi nodi o'r ceisiadau y mae wedi eu derbyn nad yw'r cyrsiau sy'n ofynnol gan gynlluniau dedfryd y carcharorion ar gael o bryd i'w gilydd yn y Parc a bu anawsterau gyda symud carcharorion i sefydliadau eraill lle mae'r cyrsiau hyn ar gael. **Mae'n ymddangos y gallai gwell cydgysylltu rhwng carchardai a chynllunio trafndiaeth briodol ddatrys y broblem hon.**

Mae adleoli carcharorion yn agosach at eu cartrefi i wneud y rhan olaf o'u dedfryd yn gallu cael ei oedi oherwydd gofynion teithio pellter hir untro. Dylai darpariaeth cludiant fod ar gael er mwyn sicrhau bod yr arfer hwn yn effeithiol.

4G DALFA FWY DIOGEL

Mae cyfarfodydd Dalfa Fwy Diogel yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr a'r cwmpasu rheoli risg i garcharorion agored i niwed drwy Waith Tîm Gofal ac Asesu yn y Ddalfa (ACCT) a Gostwng Trais drwy'r carchar. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd gyda chynrychiolaeth Gofal Iechyd, Diogelwch, y Gaplaniaeth a'r Uned Rheoli Troseddwyr yn ogystal ag uwch reolwyr gweithredol. Rhoddir ystyriaeth unigol i'r rhai sydd ar ACCT ac yn byw yn yr Uned y Ddalfa Fwy Diogel, yn ogystal â dadansoddiad o'r rhai sy'n hunan-niweidio dro ar ôl tro a'r strategaethau sydd eu hangen i'w cefnogi. Cydnabyddir bod achosion o drais difrifol i'w hunain neu i eraill gan y rhai ar ACCT yn gofyn am ddull rheoli risg deul.

Mae'r Bwrdd yn falch o weld tystiolaeth dros y flwyddyn ddiwethaf o sut mae twf ac effaith y rhaglen Lleihau Trais yn cael ei ymgorffori o fewn y Carchar.

Mae'r defnydd o log goruchwyllo ar ôl pob achos o ymddygiad treisgar nawr yn cael ei gynnal. Mae hyn yn galluogi nid yn unig ar gyfer ffocws unigol gan reolwyr, staff a charcharorion ar y materion sydd wedi eu hadnabod, ond hefyd ar gyfer casglu gwybodaeth ystadegol rheolaidd a manwl ar natur, lleoliad ac amseriad y digwyddiadau treisgar, sy'n cael eu cyflwyno a'u dadansoddi mewn cyfarfodydd Dalfa Fwy Diogel .

Dangosodd Arolwg Carcharor ar Ddyddiau Cynnar yn y Ddalfa bod bron yr holl ymatebwyr wedi dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel.

Mae gwell dealltwriaeth o anghenion penodol pobl ifanc sy'n symud ymlaen i'r adain Troseddwyr Ifanc wedi arwain at ddatblygu llyfryn pontio mwy addas ar eu cyfer. Mae'r tîm bellach yn darparu rhaglen Rheoli Dicter gyda charcharorion unigol ar yr adain, sy'n mynd i'r afael â materion o gydnabod dicter a sbardunau.

Bu pum marwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd presennol. O'r rhain, roedd dau yn hunanachosedig, ac mae'r cwestau a'r adroddiadau PPO wedi eu cwblhau. Mae tair marwolaeth wedi bod o achosion naturiol a salwch cronig hirsefydlog. Erbyn hyn mae gan bloc Coed ddarpariaeth cell gofal arbenigol sy'n galluogi gofal nyrsio effeithiol a mynediad i deuluoedd.

4H ARWAHANU, GOFAL A GWAHANU, GORUCHWYLIAETH AGOS

Mae Uned Phoenix yn cynnwys 24 cell, gyda nifer yn cael eu monitro gan gamera o swyddfa'r adain. O'r rhain, mae un heb ddodrefn ac mae dau yn gelloedd arbennig a ddefnyddir yn dilyn camymddwyn difrifol. Mae'r Bwrdd yn cael gwybod pan fydd y celloedd arbennig yn cael eu defnyddio.

Yn ystod pob wythnos bydd yr holl garcharorion ar yr Uned yn cael eu gweld gan Aelod o'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn blaenoriaethu ymweld yn ystod yr adolygiadau 72 awr a 14 diwrnod ac

mae aelodau yn gallu mynychu bron bob un o'r rhain. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod pob adolygiad yn cael eu cynnal mewn modd priodol a theg.

Mae datganiad cenhadaeth Uned Phoenix yn cael ei arddangos yn amlwg ar yr adain ac yn crynhoi ethos yr adnodd, sef *'herio ymddygiad negyddol ac annog ymgysylltiad gyda'r nod o ail-integreiddio carcharorion yn llwyddiannus yn y boblogaeth yn gyffredinol'*. Ers mis Medi 2014 mae'r nod hwn wedi cael ei mireinio yn effeithiol iawn drwy gyflwyno Llwybr Phoenix.

Mae'r model hwn wedi ei gynllunio i sicrhau bod asesiad prydlon a phriodol o bob carcharor sy'n dod i mewn i'r uned yn digwydd, gyda'r nod o'u dychwelyd i leoliad mwy normal mor gyflym ag y bo modd. Mae cynhadledd achos unigol yn galluogi cynllunio ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i ailennu diddordeb y carcharor.

Mae ymagwedd yr Uned a'r defnydd o adnoddau sydd ar gael o fewn y carchar i gyflawni ailintegreiddio wedi creu argraff dda ar y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod yr uned wedi dod llawer prysurach ac yn dod ar draws llawer mwy o achosion heriol. Dylid canmol staff yr uned am y modd proffesiynol y maen nhw'n delio â'r holl broblemau hyn.

4I GWASANAETHAU PRESWYL

Bu cynnydd sylweddol yn y llety yng Ngharchar y Parc yn ystod y flwyddyn adrodd hon ar ôl cwblhau bloc Coed .Mae gan bloc Coed dair adain:

- X1 - Afal
- X2 - Bedwyn
- X3 - Craifolen

Dechreuwyd defnyddio Coed ar 25 Ionawr 2015 a chynhaliwyd yr agoriad swyddogol gan Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol ar 9 Chwefror 2015.

Mae'r holl gelloedd yn Coed yn en-suite gyda dargludedd ffôn ar gael. Mae'r bloc yn benodol ar gyfer carcharorion sydd angen rhywfaint o gymorth wrth ymdopi â'r amgylchedd yn y carchar.

Ar hyn o bryd mae 78% o'r carcharorion yn y llety newydd yn gweithio naill ai'n llawn amser neu'n rhan amser, neu'n dilyn cymwysterau addysgol.

O fewn bloc Coed mae gorsafoedd nyrsio ar bob landin gyda dwy nyrs ar ddyletswydd ar bob adeg. Ymdrinnir â phob mater meddygol ar y safle ac eithrio triniaeth ddeintyddol sy'n digwydd yn y brif ystafell Gofal Iechyd.

Mae yna ystafell gofal lliniarol ym mloc Coed y gellir ei defnyddio ar gyfer carcharorion â salwch terfynol, ac sydd hefyd yn gwneud darpariaeth i aelodau o'r teulu aros yn y carchar i roi cefnogaeth a chysur pan fo angen.

Ger bloc Coed mae campfa, cyfleuster aml-ffydd a neuadd ymweliadau newydd, gyda phob un ohonynt yn cael eu defnyddio gan drigolion bloc Coed yn unig.

Mae ystafelloedd dosbarth ar gyfer addysg ar loriau uchaf pob adain yn ogystal â'r cyfleusterau golchi dillad arferol.

Mewn perthynas â'r prif flociau llety arall, sef A, B, C, D, T1 - T6, does dim newidiadau materol wedi digwydd er mae T1 - T6 yn unedau cymharol newydd. Mae'r mater a grybwyllwyd yn yr adroddiad yn ymwneud â matresi y llynedd wedi cael ei datrys yn foddhaol.

Mae defnydd nifer o unedau wedi newid, gyda'r Uned Cyfeirio Cyffuriau ym mloc D a'r Uned Adsefydlu newydd ym mloc C. Mae'r uned olaf hon ar gyfer carcharorion tymor byr yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau, a hefyd ar gyfer yr Uned y Tro Cyntaf yn y Ddalfa sy'n fenter newydd.

Er bod amhariad sylweddol oherwydd y gwaith adeiladu trwy gydol y flwyddyn, nid oedd yn ymddangos bod unrhyw broblemau a oedd yn effeithio ar ofal carcharorion. **Dylid canmol y Carchar am sut y bu reoli'r cyfnod anodd hwn.**

Bellach mae gan bob adain terfynfeydd ar gyfer y CMS sy'n galluogi i'r carcharorion drefnu dewisiadau prydau bwyd, ymweliadau, apwyntiadau gofal iechyd a ffreutur "ar-lein". Mae'r carcharorion hefyd yn gallu cael mynediad at fanylion eu cronfeydd a ddelir gan y carchar.

5 GWAITH Y BWRDD

Yn ystod y cyfnod adrodd presennol, 2014-2015, penodwyd pum aelod newydd ond fe dynnodd dau yn ôl. Mae'r tri arall wedi bod yn cysgodi cydweithwyr ar rota dyletswydd ac yn disgwyl i fod yn gweithredu'n annibynnol erbyn Gorffennaf 2015. Maent wedi mynychu sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd gan staff y carchar, wedi mynychu cyfarfodydd y bwrdd yn rheolaidd, ac maent wedi bod i ddarlithoedd Ymwybyddiaeth Diogelwch, Ymwybyddiaeth Allweddol, Diogelwch Personol, Amrywiaeth ac ACCT. Mae un aelod newydd eisoes wedi mynychu Cwrs Aelodau Newydd 2015 yr IMB. Yn 2014 ymwelodd y bwrdd â Charchar Bryste. Mynychodd Aelodau arddangosiad hyfforddi yn Kidlington.

Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan y Bwrdd wedi cynyddu ychydig eleni. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r cynnydd yn y ddeiliadaeth llinell sylfaen. Bu cynnydd hefyd yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd sy'n ymwneud ag eiddo. Roedd nifer o'r rhain yn ymwneud ag eiddo oedd wedi cael ei oedi yn ystod trosglwyddo oherwydd diffyg lle yn y cerbyd, ac eiddo yn mynd

ar goll wrth adleoli i arwahanu oherwydd methiant honedig i sicrhau'r gell. Mae'r Bwrdd wedi bod yn llym wrth roi'r gofyniad i garcharorion ddilyn y weithdrefn gwynion fewnol ar waith, cyn gwneud cais i'r Bwrdd.

Fel y soniwyd yn y Crynodeb Gweithredol, mae'r Bwrdd angen aelodau newydd ac mae'n rhwystredig bod y broses recriwtio mor hir. Mae achosion wedi digwydd lle, o ganlyniad i'r amserlen dan sylw, mae ymgeiswyr wedi tynnu'n ôl cyn cael eu penodi gan arwain at wastraff ymdrech ac adnoddau.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol y bu problemau gyda chwynion am garchardai eraill, a dderbyniwyd ac a anfonwyd ymlaen gan y Parc. Mewn rhai achosion ni ddaeth unrhyw ymateb gan y sefydliad arall. Mae aelodau'r Bwrdd wedi gofyn i'r carcharorion i gynorthwyo ac rydym yn rhannu rhwystredigaeth y Clerc Cwynion.

CEISIADAU

| Cod | Pwnc | 2011-12 | 2012 -13 | 2013-14 | 2014-15 |
|------------|--|----------------|-----------------|----------------|----------------|
| A | Llety | 21 | 21 | 18 | 18 |
| B | Dyfarniadau | 6 | 17 | 13 | 7 |
| C | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys crefydd) | 9 | 19 | 14 | 11 |
| D | Addysg/Cyflogaeth/Hyfforddiant gan gynnwys CAU | 42 | 42 | 43 | 55 |
| E1 | Teulu/ymweliadau gan gynnwys post a ffôn | 101 | 88 | 84 | 68 |
| E2 | Cyllid/Tâl (?) | 1 | 1 | 2 | 1 |
| F | Yn ymwneud â bwyd/y gegin | 20 | 13 | 7 | 6 |
| G | Yn ymwneud ag lechyd | 191 | 172 | 91 | 84 |
| H1 | Eiddo (yn ystod trosglwyddo/mewn sefydliad arall) | 61 | 26 | 26 | 49 |
| H2 | Eiddo (yn y sefydliad presennol) | 48 | 50 | 54 | 72 |
| H3 | Ffreutur, Cyfleusterau, siopa Catalog, Argos | 33 | 18 | 5 | 9 |
| I | Yn ymwneud â'r dedfryd (gan gynnwys. ROTL, parôl, dyddiadau rhyddhau, aildroseddu ac ati | 45 | 61 | 65 | 90 |

| | | | | | |
|---|---|------------|------------|------------|------------|
| J | Pryderon Staff/Carcharorion gan gynnwys bwlio | 55 | 74 | 61 | 61 |
| K | Trosglwyddiadau | 26 | 26 | 21 | 26 |
| L | Amrywiol | 107 | 126 | 49 | 32 |
| | Cyfanswm nifer y Ceisiadau IMB | 788 | 764 | 553 | 589 |